# CYLCHLYTHYR 02.05.25

Croeso nôl i dymor yr haf!

Am wythnos braf o haul i gychwyn y tymor! Mae tymor prysur o'm blaenau gyda nifer fawr o ddigwyddiadau – cofiwch edrych ar y dyddiadau pwysig ar ddiwedd y Cylchlythyr yma neu ar galendr y wefan.

## Presenoldeb

| 23–24 | 88.5% | Targed 24 – 25 | 92% | Y flwyddyn hyd yma | 89.93% |
|---|---|---|---|---|---|

## Clybiau

Bydd clybiau allgyrsiol yn ail-gychwyn wythnos nesa', Mai 5ed. Cliciwch ar y ddolen yma i gofrestru eich plentyn. Bydd pob clwb yn gyfunedig i 30 felly'r cyntaf i'r felin caiff falu!

| Diwrnod | Pryd? | Beth? | Pwy? |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun | 12:30– 1:00 | Meddwlgarwch | Bl 3– 6 |
| Dydd Iau | 3:15 – 4:30 | Clwb Hwyl yr Haf | Bl 1 – 2 |
| Dydd Iau | 3:15 – 4:30 | Clwb aml-chwaraeon yr Urdd – **mae angen gwisgo dillad ymarfer corf ar gyfer y clwb yma** | Bl 3 – 6 |

Clybiau Haf 2025 / Summer clubs 2025

## Diwrnod dathlu 80 ml ers y Fuddugoliaeth yn Ewrop

Ar Fai 8fed bydd y disgyblion yn nodi 80 mlynedd ers y fuddugoliaeth yn Ewrop wrth gynnal gweithgareddau amrywiol. Yn ogystal bydd y gwasanaeth arlwyo yn darparu cinio picnic i ddathlu. Noder ni fydd dewis cinio ysgol arall ar y diwrnod yma.

## Criced T20 Morgannwg yn erbyn Surrey

Mae cyfle wedi dod i ddisgyblion o flynyddoedd 4, 5 a 6 i fynychu gêm griced Morgannwg ar nos Fawrth y 3ydd o Fehefin. Bydd yr 20 plentyn cyntaf sy'n mynegi diddordeb yn cael lle i ddod a byddant yn cael ei goruchwylio gan staff yr ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi gael eich plentyn draw i gaffi Castan yng nghaeau Llandaf ar nos Fawrth y 3ydd o Fehefin erbyn 5:00. Gofynnwn i chi i'w casglu nhw o'r tu allan i dafarn y Bragdy a Chegin am 9:00 y nos. Bydd ffurflen yn cael ei rhoi ar classdojo cyn bo hir i gasglu diddordeb.

## Byrbrydau

Hoffem ofyn yn garedig i blant beidio â dod â phecynnau mawr o greision, Doritos, Takis, pecynnau o donuts neu snaciau tebyg i'r ysgol. Nid yw'r rhain yn addas fel rhan o ddiwrnod ysgol iach.

Os oes angen snac ar eich plentyn i ategu eu cinio ysgol, sicrhewch ei fod yn ddewis iach, megis:

- Ffrwythau ffres
- Caws
- Iogwrt

Er mwyn helpu pawb i ffocysu ac i gadw'n hydradol, cofiwch anfon dŵr gyda'ch plentyn i'w yfed drwy'r dydd. Er bod "squash" yn dderbyniol gyda phrydau bwyd, mae deintyddion yn argymell dŵr/llaeth fel y dewis gorau yn ystod y dydd.

🚫 **Nid yw diodydd byrlymus, diodydd egni (ee, gwm cnoi neu lolipops yn cael eu caniatáu yn yr ysgol.**

Os hoffech drafod hyn ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â'r Pennaeth.

Diolch am eich cefnogaeth wrth hyrwyddo arferion iach!

# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 05.05.25 | Gŵyl y Banc Calan Mai – ysgol ar gau |
| 08.06.25 | Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd yn ymweld âbl 6 |
| 12.05.25 | Bl 6 yn ymweld ag Archifdy Morgannwg – trip Pasbort i'r Ddinas |
| 13–15.05.25 | Nosweithiau rieni |
| 14.05.25 | Trip Bl 6 Pasbort i'r Ddinas i'r ysgol newyddiadureg |
| 14.05.25 | Bl 6 Trip i Ysgol Newyddiadureg gyda Pasbort i'r Ddinas |
| 15.05.25 | Mabolgampau Dysgu Sylfaen 9:30 – 11:30 |
| 20&21.05.25 | Nosweithiau rieni Masarnen |
| 22.05.25 | Mabolgampau Dysgu Iau 9:30 – 12:00 |
| 23.05.25 | Trip i weld "Y Naid" Bl 6 |
| **GWYLIAU HANNER TYMOR 26–30/05/25** | |
| 03.06.25 | Criced T20 Morgannwg vs Surrey |
| 04.06.25 | Sesiwn i rieni – Darllen adref |
| 04.06.25 | Trip Bl 6 i Brifysgol De Cymru (Pasport i'r Ddinas) |
| 05.06.25 | Llun Ysgol Gyfan (bore) |
| 10.06.25 | Ymgynghoriad dosbarth Meithrin – cyfarfod i rieni am 6yh |
| 11.06.25 | Cyfarfod i rieni bl 4 am y trip i Storey Arms 4:30 – 5 |
| 14&15.06.25 | TAFWYL – bydd yr ysgol yn perfformio ar ddydd Sul 15/06 – manylion pellach i ddilyn |
| 17.06.25 | Pontio+ Plasmawr |
| 18.06.25 | Sesiwn galw men i rieni ar gyfer y dosbarth meithrin |
| 23–27/6 & 30/6 – 4/7 | Gwersi nofio i flwyddyn 4 (10 diwrnod) |
| 24.06.25 | Bl 6 Pontio Plasmawr 1 |
| 01.07.25 | Bl 6 Pontio Plasmawr 2 |
| 01.07.25 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 03.07.25 | Cyfarfod i rieni bl 5 am y trip i Langrannog 4:30 – 5 |
| 04.07.25 | Gwasanaeth Dosbarth Collen 2:30yp |

| | |
|---|---|
| 08.07.25 | Bl 6 Pontio Plasmawr 3 |
| 09.07.25 | Sioe gerdd “Syrcas y Sêr” yn Ysgol Plasmawr – manylion i ddilyn |
| 11.07.25 | Gwasanaeth Dosbarth Derwen 2:30yp |
| 18.07.25 | Diwedd y Tymor i ddisgyblion |
| 21.07.25 | HMS YSGOL AR GAU I DDISGYBLION |